# FFRINDIAU

*Anhysbys/Aled Lloyd Davies*

## YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Dyma gân fer y gellir ei pherfformio fel tôn gron. Nid yw cyfansoddwr y gerddoriaeth yn hysbys.**

## THEMÂU/TESTUNAU

Ffrindiau/cyfeillgarwch


## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Ieithoedd, Llafaredd a Chyfathrebu
Y Celfyddydau Mynegiannol

## YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISGYBLAETH

### Cwmpas Lleisiol

11ef



### Ffurf Lleisiol

Tôn gron

### Elfennau Cerddorol


Parhad a thraw

### Nodweddion Cerddorol

Patrwm rhythmig syml; siâp enfys/bwa i'r alaw

## Ymarferion Cynhesu

- Sefwch mewn cylch a gwthio'ch ysgwyddau ymlaen ac yn ôl, y naill ysgwydd ar ôl y llall, ac yna'r ddwy ysgwydd gyda'i gilydd. Rhowch eich dwylo ar eich ysgwyddau a chylchdroi ymlaen ac yn ôl.
- Sefwch gyda'ch cefn yn syth a'ch traed ychydig ar wahân, wedi'u gosod 'ar bum munud i un'. Gosodwch eich dwylo am eich ochr, gan deimlo'r cawell asennau. Anadlwch allan am bedwar curiad; anadlwch i mewn am bedwar curiad, gan deimlo'ch asennau'n ehangu; daliwch eich anadl ac, wrth i chi anadlu allan, gwnewch swˆn 'shhh' am bedwar curiad a theimlo'ch asennau.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ailadrodd y ddwy brif sain lafarog ('wa' ac 'o') ar nodyn cyntaf y gân (D); dylent ganolbwyntio ar greu sain gyson.
- Gofynnwch i'r dysgwyr glapio neu adrodd y rhythm.




## Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Mae'r gân hon yn seiliedig ar idiom.
- Archwiliwch beth yw idiom?
- Allwch chi ddod o hyd i idiomau eraill a darganfod eu hystyron a'u tarddiad?
- Allwch chi eu darlunio?
- Ceisiwch gyfansoddi alaw syml ar ffurf crwn yn seiliedig ar idiom o'ch dewis.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HAWDD**

# FFRINDIAU

*Anhysbys/Aled Lloyd Davies*

## Addysgu a Dysgu

1 Chwaraewch recordiad neu ganu'r dôn gron. Gofynnwch i'r dysgwyr glapio neu daro'r curiad wrth wrando.
2 Dechreuwch drwy ganu'r alaw yn unsain a chanu'r llinell gyntaf sawl gwaith. Cyfeiriwch at y naid dri nodyn yn is (4ydd) i A.
3 Symudwch ymlaen i'r ail frawddeg ac yna cyfeiriwch at y ffaith bod angen i'r dysgwyr lithro dros ddau nodyn ar bob gair. Mae'r nodau'n symud fesul cam gan amlaf, ar wahân i'r ddau nodyn cyntaf–F i fyny i A (3ydd).
4 Ewch yn ôl i'r dechrau cyn ychwanegu'r drydedd frawddeg. Cenir y frawddeg hon ar un nodyn (A) nes iddi neidio dri nodyn i fyny (i D) a thri nodyn i lawr (i A) cyn y ddau nodyn olaf ond un, sydd yn symud fesul cam (A i G).
5 Mae'r alaw yn y frawddeg olaf yn un syml ac yn symud i lawr fesul cam gan ddychwelyd i'r nodyn cychwynnol, sef D.
6 Ar ôl i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r holl frawddegau, perfformiwch yr alaw. Os bydd y dysgwyr yn teimlo'n hyderus, dylent geisio canu'r alaw'n ddigyfeiliant.
7 Rhannwch y grŵp yn ddau grŵp llai: grŵp Coch a grŵp Piws.
8 Eglurwch wrth y grŵp Piws fod angen iddyn nhw ymuno ar ôl y llinell gyntaf 'Frindiau da yn', sef pedwar curiad (nodyn) crosiet ar ôl y grŵp Coch.
9 Ceisiwch berfformio'r ddwy ran, naill ai gyda'r recordiad neu hebddo – bydd y grŵp Coch yn dechrau ac yna'r grŵp Piws yn ymuno yn y lle cywir. Ailadroddwch gyda'r grŵp arall yn arwain, a rhowch gefnogaeth i unrhyw grŵp drwy ganu eu rhan.
10 Pan fyddwch chi a'r dysgwyr yn gallu canu'n ddeulais yn hyderus, rhannwch y grŵp yn bedwar grŵp llai. Dangoswch yr holl fannau ymuno perthnasol a gwrando ar berfformiad o'r gân.
11 Ailadroddwch hyn gan roi cyfle i bob grŵp ddechrau'r gân, a rhowch gefnogaeth i unrhyw grŵp drwy ganu eu rhan.

## Sgiliau Cyfannol

- Ble i anadlu? Anogwch y dysgwyr i anadlu ar ôl gwahanol frawddegau a geiriau. Trafodwch pa fan sydd orau i anadlu. Ceisiwch ganu'r gân gyfan ar un anadl.
- Cenwch y dôn gron yn ddigyfeiliant a'i hailadrodd deirgwaith.
- Rhannwch y dysgwyr yn grwpiau llai. Ar ôl rhoi amser iddynt ymarfer, gofynnwch iddynt berfformio'r dôn gron er mwyn i weddill y grŵp gael gwrando arni.
- Defnyddiwch y dôn gron yma fel man cychwyn wrth addysgu tôn gron arall. Beth yw'r prif wahaniaethau rhwng y naill dôn gron a'r llall?

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HAWDD**

# FFRINDIAU

*Anhysbys/Aled Lloyd Davies*

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*

*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Perfformiwch y dôn gron ar offerynnau traw yr ystafell ddosbarth. Dylid rhoi copi o'r sgôr i'r dysgwyr ac, os oes angen, dylid ysgrifennu enwau'r nodau oddi tanynt. Rhowch amser iddynt ymarfer a cheisio perfformio'r darn yn unsain, mewn dwy ran ac mewn pedair rhan.

- Perfformiwch gyda hanner y grŵp yn canu a'r hanner arall yn chwarae, ac fel arall.

- Atgoffwch y dysgwyr o'r rhythm a'r geiriau, a gofyn iddynt gyfansoddi eu halaw eu hunain, a chanddi gwmpas lleisiol o 8fed, o C canol i C uchaf. Dylent geisio cynnwys nodau camu a nodau naid, a rhai nodau sy'n ailadrodd. Gofynnwch iddynt berfformio'u cyfansoddiadau'n unigol neu mewn grwpiau.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Cwestiynau mawr**

- A oedd y gân hon yn hawdd neu'n anodd ei dysgu yn eich barn chi? Pam hynny?
- A oes gwahaniaeth barn o fewn eich grŵp?
- Sut y gallem wella neu oresgyn hyn yn y dyfodol?

### Adborth

**Adnodd: Adborth uniongyrchol**

Rhowch adborth uniongyrchol i'r dysgwyr yn ystod y broses dysgu ac addysgu. Gallai'r adborth drafod eu gallu i gadw at eu rhan wrth ganu gyda rhannau eraill. Ar ôl y broses ddysgu, rhowch adborth ar eu gallu i ymateb i'ch cyfarwyddiadau llaw wrth newid lefelau'r ddynameg.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Asesu cyfoedion**

Gofynnwch i'r dysgwyr roi sylwadau ar waith y naill a'r llall. Dyma rai sylwadau posibl y gallwch eu hawgrymu:

- Mae angen dal/cynnal y nodau hir ar ddiwedd pob brawddeg yn hirach.
- Ceisiwch wella'ch tonyddiaeth wrth ganu.
- Ceisiwch ynganu'r geiriau'n gliriach.

© CanSing Cymru 2022